Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Canllawiau'r Llywydd

# Rheol Sefydlog 25: Gweithdrefn Cynulliad Arbennig
# Cyflwyno Deisebau

## Argraffiad 1: Ebrill 2008

## Gweithdrefn Cynulliad Arbennig – Cyflwyno Deisebau

1. Mae'r Weithdrefn Cynulliad Arbennig, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 25, yn gymwys i sut y mae Gweinidogion Cymru (neu'r Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol mewn achosion eithriadol) yn arfer unrhyw bŵer i wneud neu i gadarnhau is-ddeddfwriaeth (o'r enw Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig) y mae'n rhaid iddi gydymffurfio â'r Weithdrefn Cynulliad Arbennig.

2. Mae Rheol Sefydlog 25 yn cynnwys darpariaeth i gyflwyno deisebau i Lywydd y Cynulliad yn gwrthwynebu Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r rheolau ar gyfer cyflwyno deisebau o'r fath a'r camau cysylltiedig y bydd y Cynulliad yn eu cymryd.

*(D.S. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i ddeisebau y gellir eu cyflwyno o dan y Weithdrefn Cynulliad Arbennig yn unig. Mae hon yn system hollol wahanol i'r system sy'n galluogi aelodau'r cyhoedd i gyflwyno deisebau cyffredinol ar unrhyw bwnc i'w hystyried gan y Pwyllgor Deisebau (Rheol Sefydlog 28). Mae deiseb a gyflwynir o dan Weithdrefn Cynulliad Arbennig yn fodd o wrthwynebu math penodol o ddeddfwriaeth ddirprwyedig (sef "Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig") a bydd y ddeiseb yn cael ei thrin mewn ffordd gwbl wahanol. Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio'r sefyllfaoedd ble bydd hawl i gyflwyno deiseb sy'n gwrthwynebu Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig.)*

### Cynnwys


**Beth yw Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig? ..... 2**
**Sut fedrai roi fy marn am Orchymyn Gweithdrefn Arbennig? ..... 2**
**Beth yw deiseb? ..... 2**
**Pwy sydd â hawl i gyflwyno deiseb? ..... 3**
**Faint o amser sydd gennyf i gyflwyno'r ddeiseb? ..... 3**
**Beth ddylwn i ei gynnwys yn y ddeiseb? ..... 3**
**Rydym am gyflwyno deiseb ar ran mwy nag un person; a yw deiseb ar y cyd yn bosibl? ..... 4**
**Sut mae cyflwyno deiseb? ..... 4**
**Sut fedrai ddarganfod pa ddeisebau eraill sydd wedi'u cyflwyno? ..... 5**
**Beth fydd yn digwydd ar ôl cyflwyno'r ddeiseb? ..... 5**
**Mae deisebau wedi'u cyflwyno sy'n galw am ddiwygiadau a fyddai'n effeithio arnaf. Sut fedrai roi fy marn am hyn nawr? ..... 5**
**Pryd a sut fedrai gyflwyno gwrth-ddeiseb? ..... 6**
**Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r Llywydd ystyried yr holl ddeisebau? ..... 6**
**Ar ôl cyflwyno deiseb, a oes modd rhoi barn gerbron y Pwyllgor? ..... 6**
**Pa gamau fydd y Pwyllgor yn eu cymryd? ..... 7**
**Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r Pwyllgor wneud ei benderfyniad? ..... 7**
**Os nad wyf yn dymuno bwrw ymlaen, sut mae tynnu deiseb yn ôl? ..... 7**
**Ymholiadau pellach ..... 8**
**Atodiad A: Deiseb enghreiffiol yn gwrthwynebu Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig ..... 9**
**Atodiad B: Gwrth-ddeiseb enghreifftiol ..... 10**
**Atodiad C: Sut i gyrraedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ..... 11**

## Beth yw Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig?

4. Darn o ddeddfwriaeth ddirprwyedig y mae Gweithdrefnau Cynulliad Arbennig yn gymwys iddi yw Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig. Mae'r pŵer i wneud Gorchmynion Gweithdrefn Arbennig sy'n ymwneud â phwerau datganoledig wedi'i ddirprwyo gan y Cynulliad neu gan Senedd y DU i Weinidogion Cymru neu i gorff fel awdurdod lleol. Os bydd y pŵer i wneud Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig wedi'i ddirprwyo i awdurdod lleol neu i gorff tebyg, bydd yn rhaid i'r Gweinidogion roi cadarnhad cyn y daw'n ddeddf. Mae Gorchmynion Gweithdrefn Arbennig fel arfer yn ymwneud yn benodol â darn arbennig o dir. Mae enghreifftiau'n cynnwys gorchmynion sy'n awdurdodi prynu gorfodol yn achos tir gwarchodedig penodol, a gorchmynion penodol sy'n ymwneud â chefnffyrdd a wrthwynebir gan yr awdurdod priffyrdd lleol.

5. Oherwydd effaith benodol gorchmynion fel y rhain a'r ffaith y gallai'r penderfyniad effeithio ar aelodau o'r cyhoedd, rhaid rhoi cyfle i'r bobl hynny gyflwyno deiseb i'r Llywydd yn gwrthwynebu'r gorchmynion o dan y Weithdrefn Cynulliad Arbennig, a dim ond wedyn y gall y gorchmynion ddod yn ddeddf. Mae hyn wedi'i nodi yn Rheol Sefydlog 25.

## Sut fedrai roi fy marn am Orchymyn Gweithdrefn Arbennig?

6. Mae'r Weithdrefn Cynulliad Arbennig yn rhoi cyfle i gyflwyno deiseb i Lywydd y Cynulliad yn gwrthwynebu Gorchmynion Gweithdrefn Arbennig drafft.

7. Unwaith y gosodir Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig gerbron y Cynulliad, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r cyhoedd y caiff unrhyw berson gyflwyno deiseb i Lywydd y Cynulliad o fewn cyfnod penodol. Gwneir hyn drwy hysbysiad cyhoeddus mewn papur newydd, a fydd yn nodi'r dyddiad cau.

8. Mae posibilrwydd hefyd y bydd y Gweinidog perthnasol wedi gorfod cynnal ymchwiliad cyhoeddus i drafod gwrthwynebiadau, cyn gosod Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft.

## Beth yw deiseb?

9. Crynodeb o wrthwynebiadau yn erbyn Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yw deiseb. Mae'n gais ffurfiol i'r Llywydd:

(a) yn galw am wneud diwygiadau penodol i'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig; neu

(b) yn galw am beidio â gwneud na chadarnhau'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig; neu'r ddau.

## Pwy sydd â hawl i gyflwyno deiseb?

10. Gall unrhyw unigolyn, grŵp o unigolion, awdurdod lleol, sefydliad, cymdeithas amwynder neu gorff tebyg y bydd y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn effeithio arnynt, gyflwyno deiseb i'r Llywydd er mwyn i'r Cynulliad ystyried eu gwrthwynebiadau'n ffurfiol, ar yr amod bod ganddynt, ym marn y Llywydd, "sail wreiddiol dros wrthwynebu". Hynny yw, byddai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn effeithio ar eu heiddo neu ar eu buddiannau.

## Faint o amser sydd gennyf i gyflwyno'r ddeiseb?

11. Rhaid cyflwyno deisebau sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig i'r Llywydd o fewn cyfnod o 20 diwrnod gwaith[1], sy'n dechrau ar y diwrnod y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi hysbysiad ynghylch y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig am y tro cyntaf mewn papur newydd[2]. Bydd y dyddiad cau wedi'i nodi yn yr hysbysiad. Nid oes modd ystyried deisebau a gyflwynir ar ôl i'r 20 diwrnod gwaith ddod i ben.

## Beth ddylwn i ei gynnwys yn y ddeiseb?

12. Dylai'r ddeiseb gael pennawd clir sy'n cynnwys y canlynol:

a) teitl y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig; ac yna:

b) eich enw llawn a'ch cyfeiriad post, neu, os yw'r ddeiseb yn cael ei chyflwyno gan fwy nag un person, enw a chyfeiriad pob un ohonoch.

13. Rhaid i'r ddeiseb esbonio pwy ydych chi a sut y byddai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft yn effeithio ar eich eiddo neu ar eich buddiannau. Os bydd y gorchymyn yn effeithio ar unrhyw dir sydd gennych, rhaid i chi ddangos yn glir ble mae'r tir hwnnw, yn ddelfrydol drwy ddarparu cynllun.

14. Yn olaf, rhaid i'r ddeiseb nodi pa gamau rydych chi am eu gweld yn cael eu cymryd. Hynny yw, a ydych chi am i'r Cynulliad atal y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig rhag cael ei wneud yn gyfan gwbl, neu am ei weld yn cael ei ddiwygio mewn rhyw ffordd. Dylech nodi hefyd eich rhesymau dros alw am y camau hynny. Nid oes angen mynd i ormod o fanylder ynghylch eich gwrthwynebiad: mae rhoi

---

[1] Ystyr diwrnod gwaith yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio:
(i) dydd Sadwrn neu ddydd Sul;
(ii) Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, Dydd Iau Cablyd neu Ddydd Gwener y Groglith;
(iii) diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru;
(iv) diwrnod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.

[2] Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn ymwneud â hi, ond nid o anghenraid ar ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad am y tro cyntaf. I gael cadarnhad, ffoniwch y Swyddfa Deddwriaeth ar 029 2089 8144.

amlinelliad byr yn ddigon.

15. Os byddwch yn gofyn am ddiwygio'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig, rhaid i'r ddeiseb nodi'n glir sut y dylid ei ddiwygio. Hynny yw, dylai'ch deiseb gynnwys geiriad y diwygiad a'ch rhesymau drosto.

16. Os bydd pwyllgor Cynulliad yn ystyried eich deiseb (gweler paragraffau 29-30), cofiwch mai dim ond y materion y cyfeirir atynt yn y ddeiseb wreiddiol y gall y pwyllgor eu hystyried.

17. Ceir deiseb enghreifftiol yn Atodiad A, a gallwch ddilyn patrwm hon.

18. Dylai deisebwyr fod yn ymwybodol y gellir cyhoeddi'r wybodaeth sydd yn y ddeiseb, gan gynnwys yr enw neu'r enwau. Gellir gwneud hyn ar wefan y Cynulliad, er enghraifft. Hefyd, gellir rhoi'r wybodaeth a ddarparwyd i gyd-fynd â'r ddeiseb i'r rheini a fyddai am gyflwyno gwrth-ddeiseb.

## Rydym am gyflwyno deiseb ar ran mwy nag un person; a yw deiseb ar y cyd yn bosibl?

19. Ydy, gallwch wneud hyn drwy roi enw llawn a chyfeiriad pob deisebydd ar un ddeiseb (gweler paragraff 12 uchod).

## Sut mae cyflwyno deiseb?

20. Gellir cyflwyno pob deiseb sy'n gwrthwynebu Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft i Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gymraeg neu yn Saesneg.

21. Gallwch gyflwyno'ch deiseb:
a) drwy ei hanfon ar e-bost i SAP.Petitions@wales.gsi.gov.uk ;
b) drwy ei chyflwyno'n bersonol yn y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Stryd Pierhead, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA (gweler y cyfarwyddiadau yn Atodiad C); neu
c) drwy ei phostio i'r cyfeiriad hwnnw (gan sicrhau ei bod yn cyrraedd cyn y dyddiad cau a nodir yn yr hysbysiad yn y wasg).

22. Gallwch gyflwyno deiseb yn bersonol ar unrhyw ddiwrnod gwaith, ond rhowch wybod i ni ymlaen llaw drwy ysgrifennu, ffonio neu anfon e-bost gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Bydd hyn yn sicrhau bod staff ar gael pan fyddwch yn cyrraedd i gyflwyno'r ddeiseb. Bydd hefyd yn osgoi unrhyw ansicrwydd ynghylch y dyddiad cyflwyno ac yn sicrhau bod y ddeiseb yn cael ei throsglwyddo i'r person cywir cyn gynted â phosibl. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe gallech roi gwybod i ni sawl deisebydd fydd yn bresennol ar y diwrnod.

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Stryd Pierhead
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8144 neu 02920 898154

E-bost: SAP.Petitons@wales.gsi.gov.uk

## Sut fedrai ddarganfod pa ddeisebau eraill sydd wedi'u cyflwyno?

23. Rhaid i'r Llywydd roi gwybod i'r Cynulliad am yr holl ddeisebau a ddaw i law, a bydd y wybodaeth ar gael ar wefan y Cynulliad.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl cyflwyno'r ddeiseb?

24. Bydd y Llywydd yn ystyried yr holl ddeisebau a ddaw i law. Os bydd y Llywydd o'r farn **nad yw** eich deiseb yn datgelu sail wreiddiol dros wrthwynebu'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig, rhaid iddo roi gwybod i chi a rhoi cyfle i chi gyflwyno sylwadau ysgrifenedig pellach iddo ynghylch y mater. Os bydd y Llywydd yn dal i gredu nad oes gennych sail wreiddiol dros wrthwynebu, fe'ch hysbysir na fydd eich deiseb yn cael ei hystyried ymhellach ac na fydd y ddeiseb yn rhwystro'r Gweinidog rhag gwneud (neu gadarnhau) y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig.

25. Ar ôl ystyried eich deiseb ac unrhyw sylwadau pellach, os bydd y Llywydd o'r farn **bod** eich deiseb yn datgelu sail wreiddiol dros wrthwynebu, bydd yn eich hysbysu ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ei benderfyniad.

## Mae deisebau wedi'u cyflwyno sy'n galw am ddiwygiadau a fyddai'n effeithio arnaf. Sut fedrai roi fy marn am hyn nawr?

26. Os bydd deiseb yn datgelu sail wreiddiol dros wrthwynebu, **ac** yn galw am ddiwygio'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig, bydd y Llywydd yn ystyried a fydd y diwygiadau hyn yn effeithio ar fuddiannau pobl eraill. Er enghraifft, efallai y byddai diwygiad arfaethedig mewn deiseb yn lleihau effaith y gorchymyn ar eiddo'r person sy'n ei gynnig, ond yn cynyddu'r effaith ar eich eiddo chi.

27. Yn y sefyllfa hon, rhaid i'r Llywydd:

(a) rhoi gwybod i'r Cynulliad am hyn;
(b) hysbysu'r deisebydd am y penderfyniad;

(c) rhoi cyfle i unrhyw bobl y byddai'r diwygiadau'n effeithio arnynt gyflwyno deisebau'n gwrthwynebu'r diwygiadau hyn – yr enw ar y rhain yw gwrth-ddeisebau.

## Pryd a sut fedrai gyflwyno gwrth-ddeiseb?

28. Rhaid i'r Llywydd roi gwybod i'r cyhoedd bod modd i unrhyw berson gyflwyno gwrth-ddeiseb iddo. Gwneir hyn drwy hysbysiad cyhoeddus mewn papur newydd. Rhaid cyflwyno gwrth-ddeiseb o fewn cyfnod o 20 diwrnod gwaith[3] sy'n dechrau ar y diwrnod y bydd y Llywydd yn cyhoeddi'r hysbysiad mewn papur newydd am y tro cyntaf. Caiff y dyddiad cau ei nodi yn yr hysbysiad[4]. Ni ellir ystyried gwrth-ddeisebau a gyflwynir ar ôl yr 20 diwrnod gwaith.

29. Rhaid cyflwyno ac ystyried gwrth-ddeisebau yn yr un modd â deisebau (gweler paragraffau 10 – 24 uchod). Mae gwrth-ddeiseb enghreifftiol ar gael yn Atodiad B, a gallwch ddilyn patrwm hon.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r Llywydd ystyried yr holl ddeisebau?

30. Bydd unrhyw ddeisebau (a gwrth-ddeisebau) sy'n cynnwys sail wreiddiol dros wrthwynebu ym marn y Llywydd yn cael eu hystyried gan bwyllgor Cynulliad, a sefydlir i ystyried y deisebau. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i gasgliadau i'r Cynulliad.

## Ar ôl cyflwyno deiseb, a oes modd rhoi barn gerbron y Pwyllgor?

31. Os bydd y Llywydd wedi penderfynu bod eich deiseb yn cynnwys sail wreiddiol dros wrthwynebu, fe'ch hysbysir o'ch hawl i roi barn gerbron y Pwyllgor naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd, a hynny ar y cyd â deisebwyr eraill, fel gwrth-ddeisebwyr, ac unrhyw geisydd am y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig. Bydd gan y Gweinidog perthnasol hawl i gymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor hefyd (yn bersonol neu drwy gynrychiolydd) ond ni chaiff bleidleisio.

---

[3] Ystyr diwrnod gwaith yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio:
(i) dydd Sadwrn neu ddydd Sul;
(ii) Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, Dydd Iau Cablyd neu Ddydd Gwener y Groglith;
(iii) diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru;
(iv) diwrnod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.

[4] Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn ymwneud â hi, ond nid o anghenraid ar ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad am y tro cyntaf. I gael cadarnhad, ffoniwch y Swyddfa Deddfwriaeth ar 029 2089 8144.

## Pa gamau fydd y Pwyllgor yn eu cymryd?

32. Ar ôl clywed yr holl safbwyntiau, bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i argymhellion i'r Cynulliad. Bydd yn cyflwyno adroddiad gydag argymhelliad y dylai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft:

(a) peidio â chael ei wneud neu ei gadarnhau;
(b) cael ei wneud neu ei gadarnhau heb ei ddiwygio; neu
(c) cael ei wneud neu ei gadarnhau gydag unrhyw ddiwygiadau a fyddai ym marn y pwyllgor yn rhoi effaith yn llwyr neu'n rhannol i unrhyw ddeiseb (neu wrth-ddeiseb).

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r Pwyllgor wneud ei benderfyniad?

33. Os bydd y Pwyllgor yn adrodd **na ddylai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft gael ei wneud neu ei gadarnhau**, ni fydd yn dod yn ddeddf.

34. Os bydd y Pwyllgor yn adrodd **y dylai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft gael ei wneud neu ei gadarnhau heb ei ddiwygio,** caiff un o Weinidogion perthnasol Cymru ei wneud neu ei gadarnhau.

35. Os bydd y Pwyllgor yn adrodd **y dylai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft gael ei wneud neu ei gadarnhau gyda diwygiadau,** caniateir iddo gael ei wneud neu ei gadarnhau gyda'r diwygiadau hynny.

36. Os bydd un o Weinidogion Cymru yn penderfynu peidio â gwneud neu gadarnhau'r Gorchymyn o gwbl, ar ôl ystyried y diwygiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor, rhaid tynnu'r Gorchymyn yn ôl. Fel arall, gall y Gweinidog gynnig y dylai'r Cynulliad gytuno gwneud neu gadarnhau'r Gorchymyn heb y diwygiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor. Y Cynulliad fydd i benderfynu wedyn.

37. Os na chaiff y Gorchymyn ei wneud neu ei gadarnhau (fel y gallai ddigwydd yn unol â pharagraff 33 neu 36), ni fydd hyn atal un o Weinidogion Cymru rhag gosod Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft arall gerbron y Cynulliad at yr un diben, neu at ddiben tebyg. Mewn achos o'r fath, byddai'n rhaid i'r Gweinidog ddilyn holl weithdrefnau perthnasol y Cynulliad eto.

## Os nad wyf yn dymuno bwrw ymlaen, sut mae tynnu deiseb yn ôl?

38. Gallwch dynnu'ch deiseb yn ôl unrhyw bryd. Gellir gwneud cais i dynnu deiseb yn ôl drwy ysgrifennu at y Llywydd:

a) drwy e-bost, i SAP.Petitions@wales.gsi.gov.uk ; neu
b) drwy lythyr, i'r Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Stryd

Pierhead, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA.

37. Os cyflwynwyd eich deiseb yn enw mwy nag un person, gall unrhyw un o'r bobl hyn dynnu eu henwau yn ôl o'r ddeiseb. Fodd bynnag, dim ond os bydd yr holl bobl a enwir ar y ddeiseb yn penderfynu tynnu eu henwau'n ôl o'r ddeiseb y gellir ei thynnu'n ôl yn llwyr. Fel arall, bydd yn parhau i gael ei hystyried. Gallwch dynnu'ch enw'n ôl o ddeiseb drwy e-bost neu drwy'r post fel y nodir uchod.

## Ymholiadau pellach

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Stryd Pierhead
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8144 neu 02920 898154

E-bost: SAP.Petitions@wales.gsi.gov.uk

Gweler hefyd wefan y Cynulliad ar is-ddeddfwriaeth:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-sub.htm

**ATODIAD A**

# Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig

## Deiseb i Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## [TEITL Y GORCHYMYN]

DEISEB YW HON YN ENW: [ENW A CHYFEIRIAD POB UNIGOLYN, CWMNI NEU GYMDEITHAS SY'N CYFLWYNO'R DDEISEB]

1. [Rhowch fanylion y deisebwyr[5], ynghyd â disgrifiad o'ch eiddo neu'ch buddiannau y byddai'r gorchymyn yn effeithio arnynt].
2. [Rhowch ddatganiad byr a chlir o'ch rhesymau dros wrthwynebu'r gorchymyn a/neu'r diwygiad neu'r diwygiadau yr hoffech eu gweld, a'r rhesymau drostynt.]

Mae'r DEISEBYDD/DEISEBWYR felly yn deisebu Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru [nad yw'r Gorchymyn yn cael ei gymeradwyo]* [neu] [bod y Gorchymyn yn cael ei ddiwygio fel y nodir yn y ddeiseb hon]*

[Llofnod y Deisebydd[6], neu Asiant y Deisebydd]

[Dyddiad cyflwyno]

* Dewiswch y testun o'r cromfachau fel sy'n briodol – **cofiwch** y gall deiseb alw am beidio â chymeradwyo Gorchymyn, ond os caiff ei gymeradwyo, y bydd yn cael ei gymeradwyo gyda'r diwygiadau a nodir yn y ddeiseb.

[5] Er enghraifft, "Mae'r Deisebydd cyntaf yn berchennog ar eiddo yn… Yr ail Ddeisebydd yw …", " Y Deisebwyr yw Cymdeithas..., sef cymdeithas trigolion Heol..., ac a sefydlwyd yn ... er mwyn..."; "Cymdeithas amwynder yw'r Deisebydd a'i fuddiannau yw … "

[6] Os cyflwynir y ddeiseb drwy e-bost, caniateir rhoi'r llofnod fel testun wedi'i argraffu.

**ATODIAD B**

# Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig

## Gwrth-ddeiseb i Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## [TEITL Y GORCHYMYN]

GWRTH-DDEISEB YW HON YN ENW: [ENW A CHYFEIRIAD POB UNIGOLYN, CWMNI NEU GYMDEITHAS SY'N CYFLWYNO'R WRTH-DDEISEB]

1. [Rhowch fanylion y gwrth-ddeisebwyr[7], ynghyd â disgrifiad o'ch eiddo neu'ch buddiannau y byddai'r gorchymyn yn effeithio arnynt].
2. [Rhowch fanylion y diwygiadau rydych chi'n eu gwrthwynebu, sydd wedi'u cynnig gan ddeisebydd arall sy'n gwrthwynebu'r gorchymyn].
3. [Rhowch ddatganiad byr a chlir o'r rhesymau dros wrthwynebu'r diwygiadau hyn i'r gorchymyn a/neu unrhyw ddiwygiad neu ddiwygiadau eraill yr hoffech eu gweld a'r rhesymau drostynt.]
4. [Os cyflwynwyd deiseb gennych ar ôl i un o Weinidogion Cymru gyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus gwreiddiol, h.y. yn galw am ddeisebau'n gwrthwynebu'r gorchymyn, atodwch eich deiseb wreiddiol er hwylustod.]

Mae'r DEISEBYDD/DEISEBWYR felly yn deisebu Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru [nad yw'r Gorchymyn yn cael ei gymeradwyo os caiff ei ddiwygio yn y ffordd y cyfeirir ati ym mharagraff 2]* [neu] [bod y Gorchymyn yn cael ei ddiwygio fel y nodir yn y ddeiseb hon]*

[Llofnod y Deisebydd[8]**, neu Asiant y Deisebydd]
[Dyddiad cyflwyno]

---


* Dewiswch y testun o'r cromfachau fel sy'n briodol – **cofiwch** y gall deiseb alw am beidio â chymeradwyo Gorchymyn, ond os caiff ei gymeradwyo, y bydd yn cael ei gymeradwyo gyda'r diwygiadau a nodir yn y ddeiseb.

[7] Er enghraifft, "Mae'r Deisebydd cyntaf yn berchennog ar eiddo yn… Yr ail Ddeisebydd yw …", " Y Deisebwyr yw Cymdeithas..., sef cymdeithas trigolion Heol..., a sefydlwyd yn ... er mwyn..."; "Cymdeithas amwynder yw'r Deisebydd a'i fuddiannau yw … "

[8] Os cyflwynir y ddeiseb drwy e-bost, caniateir rhoi'r llofnod fel testun wedi'i argraffu.

**ATODIAD C**

## Sut i gyrraedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd




### Bws

Mae'r gwasanaethau bws cenedlaethol yn stopio yng Ngorsaf Ganolog Caerdydd, a gellir dal y gwasanaethau cysylltu, sef bysus rhifau 8 a 9, yn arosfannau W2 ac W3 (y tu allan i'r orsaf ar Stryd Wood). Mae gwasanaeth bws y Bay Express yn gadael Gorsaf Ganolog Caerdydd bob 10 munud ac yn stopio gyferbyn â swyddfa'r Cynulliad ar Stryd Pierhead. Mae gwasanaeth rhif 7 hefyd yn gadael o Heol Eglwys Fair.

### Trên

Mae'r gwasanaethau'n gadael bob ugain munud o Orsaf Heol-y-Frenhines, Caerdydd i Orsaf Bae Caerdydd. Mae'r orsaf ychydig o funudau o swyddfa'r Cynulliad.

### O'r Drafforddd

Gadewch yr M4 ar gyffordd 33, dilynwch yr A4232 i Fae Caerdydd, a dilynwch yr arwyddion neu defnyddiwch fap.

### Meysydd Parcio

Mae'r maes parcio talu ac arddangos agosaf yng Nghei'r Fôr-forwyn, dafliad carreg o Lanfa'r Cynulliad. Mae staff diogelwch yn y maes parcio gydol yr adeg. Mae lle parcio gyda thalebau ar gael y tu allan i'r Eglwys Norwyaidd.

### Cyfleusterau Parcio Ceir i Bobl Anabl

Mae lle parcio i ymwelwyr anabl ar gael ym maes parcio'r Cynulliad drwy drefnu ymlaen llaw. Yn achos deisebwyr sy'n ymweld â'r Cynulliad, gellir trefnu lle parcio drwy ffonio'r Swyddfa Ddeddfwriaeth ar 029 2089 8154. Rhaid i ymwelwyr ddangos eu bathodyn parcio anabl wrth gyrraedd.